Hawdd ei Ddeall

# Creu Cynllun Hyfforddiant Swyddi Cenedlaethol i Gymru

## Helpu pobl ag anableddau dysgu ac awtistiaeth i ddod o hyd i swyddi



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan brosiect **Dylanwadu a Hysbysu Engage to Change**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **'O wasanaeth i strategaeth: Strategaeth Hyfforddiant Swyddi Cenedlaethol i Gymru i gefnogi pobl ag anableddau dysgu ac awtistiaeth i gyflogaeth'.**

**Awst 2024**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r geiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 22**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **prosiect Dylanwadu a Hysbysu Engage to Change.**

**Y bobl sy'n gweithio ar y prosiect ydy:**

**Dr. Elisa Vigna** - NCMH, Prifysgol Caerdydd

**Andrea Meek** - NCMH, Prifysgol Caerdydd

**Angela Kenvyn** - Dylanwadu a Hysbysu Engage to Change, Anabledd Dysgu Cymru.

**Gerraint Jones-Griffiths** - Dylanwadu a Hysbysu Engage to Change, Anabledd Dysgu Cymru.



Am fwy o wybodaeth am yr adroddiad yma, cysylltwch â:
**Dr Elisa Vigna** Vignae@cardiff.ac.uk

Am fwy o wybodaeth am y **prosiect Engage to Change** cysylltwch â:
**Angela Kenvyn:** angela.kenvyn@ldw.org.uk

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys


**Am Engage to Change** .......... 5

**Gwasanaeth hyfforddiant swyddi cenedlaethol** .......... 8

**Beth sy'n gweithio** .......... 10

Profiad gwaith .......... 10

Hyfforddiant swydd .......... 10

Cymorth wedi'i arwain gan anghenion .......... 10

Lleoliadau gwaith â thâl ac interniaethau â chymorth .......... 11

Gweithio gyda chyflogwyr .......... 12

Pwysigrwydd gwaith cyflogedig .......... 12

Cyllid .......... 12

**Beth rydyn ni'n meddwl ddylai ddigwydd** .......... 15

**Diolch** .......... 21

**Geiriau anodd** .......... 22

# Am Engage to Change

Roedd **Engage to Change** yn brosiect 7 mlynedd. Daeth i ben ym mis Mai 2023.



Roedd y prosiect yn gweithio ar draws Cymru. Fe wnaeth gefnogi 1075 o bobl ifanc ag anabledd dysgu ac neu awtistiaeth.

Cafodd y prosiect ei ariannu gan **Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol** a chael cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru.

Roedd y prosiect yn helpu pobl ifanc ag anabledd dysgu ac/neu awtistiaeth i:



- Dysgu sgiliau ar gyfer gwaith




- Symud i swyddi â thâl



Fe wnaeth bron i hanner y bobl ifanc ar y prosiect ddod o hyd i waith â thâl..



Mae mwy o wybodaeth am y prosiect ar y wefan yma: [www.engagetochange.org.uk/?lang=cy](www.engagetochange.org.uk/?lang=cy)




Y rhan yma o'r prosiect ydy **Dylanwadu a Hysbysu Engage to Change**.


Mae'r prosiect yn cael ei redeg gan:

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

- **Anabledd Dysgu Cymru** ac

NCMH
National Centre for Mental Health

- **Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl (NCMH)** ym **Mhrifysgol Caerdydd**.





Ein nod ydy darganfod beth sy'n helpu pobl ag anabledd dysgu ac/neu awtistiaeth i gael gwaith cyflogedig.




Fe fyddwn ni yn defnyddio beth rydyn ni yn ei ddysgu i:

- Newid polisïau.



- Gwella sut rydyn ni yn cefnogi pobl ag anabledd dysgu ac/neu awtistiaeth i ddod o hyd i waith â thâl a'i gadw.




Rydyn ni eisiau **Strategaeth Hyfforddwr Swyddi Cenedlaethol Cymru**. Fe fyddai hwn yn gynllun i ddarparu **cymorth hyfforddwr** swyddi i unrhyw un sydd ei angen.



Mae **hyfforddwyr swyddi** yn helpu pobl i ddod o hyd i, dysgu ac aros yn eu swyddi. Mae'r cymorth hwn yn **hyfforddiant swyddi**.

# Gwasanaeth hyfforddiant swyddi cenedlaethol



Yn 2020, fe wnaethon ni ddweud y dylid cael **Gwasanaeth Hyfforddiant Swyddi Cenedlaethol**.



Fe fyddai hyn yn ffordd dda o helpu pobl ag anabledd dysgu ac neu awtistiaeth i gael gwaith cyflogedig.

Rydyn ni yn seilio'r syniad yma ar beth rydyn ni wedi ei ddysgu o'r prosiect **Engage to Change**.




Cyflogaeth â chymorth a **hyfforddiant swyddi**:

- Helpu pobl i ddatblygu sgiliau ar gyfer gwaith
- Cefnogi pobl i gael gwaith cyflogedig




Yng Nghymru, ychydig iawn o bobl ag anabledd dysgu rhwng 18 a 64 oed sydd â swydd gyflogedig.




Dim ond 4.8% o bobl ag anabledd dysgu yn Lloegr sydd â swydd. Mae hyn yn meddwl bod gan lai nag un o bob 20 o bobl swydd.



Mae gan 21.7% o bobl awtistig yn Lloegr swydd gyflogedig. Mae hyn yn meddwl bod gan lai na 5 o bob 20 o bobl swydd.



Dydyn ni ddim yn gwybod y niferoedd yng Nghymru. Ond rydyn ni yn gwybod nad oes gan fwy o bobl yng Nghymru swydd o'i gymharu â gweddill y DU.



Mae cynlluniau cymorth cyflogaeth da yng Nghymru. Ond dydy llawer o'r rhain ddim yn ateb anghenion pobl ag anableddau dysgu.



Ers 2020, rydyn ni wedi casglu mwy o wybodaeth am beth sy'n gweithio a beth mae pobl ei angen.

# Beth sy’n gweithio

Beth rydyn ni wedi’i ddysgu gan Engage to Change.



## Profiad gwaith

Mae profiad gwaith da yn helpu pobl ifanc i gael swyddi cyflogedig. Mae’n rhaid i ni gynnig profiad gwaith o ansawdd uchel i bobl ifanc yn yr ysgol neu’r coleg.



## Hyfforddiant swydd

**Hyfforddiant swydd** oedd y rhan bwysicaf o gael pobl ifanc i mewn i waith cyflogedig.




## Cymorth wedi’i arwain gan anghenion

Rhaid i’r gefnogaeth fod yn seiliedig ar anghenion pob unigolyn. Efallai y bydd angen mwy o amser a chefnogaeth ar rai i ddysgu sgiliau gwaith. Efallai y bydd angen help ar eraill gyda rheolau cymdeithasol yn y gwaith.

## Lleoliadau gwaith â thâl ac interniaethau â chymorth



Roedd profiadau gwaith fel **interniaethau â chymorth** a lleoliadau gwaith â thâl yn fwyaf llwyddiannus.



**Interniaeth â chymorth** ydy lle mae pobl yn mynd i'r coleg am rai oriau bob wythnos ond yn dysgu mewn gweithle am y rhan fwyaf o'r wythnos. Mae'r gwaith yn ddi-dâl. Maen nhw'n cael help gan **hyfforddwr swyddi**.



Fe wnaeth mwy o bobl ifanc ddod o hyd i waith cyflogedig ar ôl gwneud y mathau yma o leoliadau.



Yn y prosiect Engage to Change, fe wnaethon ni baru lleoliadau â sgiliau a diddordebau pobl ifanc. Roedden nhw yn gwneud gwaith go iawn, mewn gweithleoedd go iawn ac roedden nhw'n cael cefnogaeth gan **hyfforddwr swyddi**. Roedd hyn wedi gweithio yn dda iawn.



## Gweithio gyda chyflogwyr

Mae angen i ni weithio gyda chyflogwyr i ddarparu cyflogaeth â chymorth a **hyfforddiant swyddi**. Mae'n gweithio orau pan fyddwn ni yn gweithio gyda phob cyflogwr.



## Pwysigrwydd gwaith cyflogedig

Mae cael swydd â thâl yn helpu pobl i gael hyder ac mae'n gwella iechyd meddwl.




Fe fydd gwneud y symud o'r ysgol i'r gwaith yn haws yn helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei nodau iechyd a gofal cymdeithasol.



## Cyllid

Mae cyllid yn bwysig ar gyfer y gwaith yma. Rydyn ni yn credu y dylai pob cynllun swyddi a sgiliau gael arian ar gyfer **hyfforddiant swyddi** yn unig.

**O ble mae'r arian yn gallu dod:**

**1. Mynediad i Waith**

Mae hwn yn gynllun gan y**r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)**. Mae'n rhoi arian i helpu pobl anabl mewn gwaith â thâl. Fe wnaeth **Engage to Change** gefnogi mwy o bobl oherwydd y cyllid hwn.

Rydyn ni yn credu y dylai **Llywodraeth Cymru** gadw hyn i fynd a gweithio'n agos gyda'r **DWP** i wneud ei ddefnyddio'n fwy hygyrch a gwell. Mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod hyn yn gweithio'n dda a heb oedi hir.

**2. Cyllid Llwybr 4**



Mae'r arian yma ar gyfer **interniaethau â chymorth** ac mae ar gael i golegau Addysg Bellach yng Nghymru. Does dim arian ar gyfer **hyfforddiant swyddi** i helpu pobl i baratoi ar gyfer eu **hinterniaeth** neu i helpu pobl ar ôl i'w **interniaeth** ddod i ben.

Mae angen i ni wneud mwy o waith gyda'r **Adran Gwaith a Phensiynau** fel ei bod yn bosibl defnyddio cyllid Mynediad at Waith ar gyfer mwy o gymorth yng Nghymru

## 3. Cymorth Cyffredinol

Rhaglen yr **Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)** ydy cefnogaeth gyffredinol. Mae'n rhoi arian ar gyfer hyfforddiant a chefnogaeth yn y gwaith i bobl anabl.




Fe ddylai fod yn seiliedig ar fodelau cyflogaeth â chymorth rydyn ni'n gwybod sydd yn gweithio. Os bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu **Strategaeth Hyfforddiant Swyddi Genedlaethol**, fe ddylai weithio gyda'r cyllid yma.

## 4. Rhaglen Cyflogaeth Anabledd Dysgu Gogledd Cymru



Iechyd a gofal cymdeithasol sydd yn rhedeg hyn. Mae'r **Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF)** yn ei ariannu.



Mae'n darparu cyflogaeth â chymorth i bobl o bob oed sydd ag anabledd dysgu. Fe fyddai hyn yn gallu gweithio mewn rhannau eraill o Gymru.

# Beth rydyn ni'n meddwl ddylai ddigwydd



Dyma ein syniadau ar gyfer **Strategaeth Hyfforddiant Swyddi Genedlaethol**, yn seiliedig ar beth rydyn ni wedi ei ddysgu o'r prosiect Engage to Change:



- Mae'n rhaid i raglenni cyflogaeth Llywodraeth Cymru gael arian sydd ar gyfer **hyfforddiant swyddi** yn unig.




- Fe ddylai **hyfforddiant swyddi** fod yn seiliedig ar sgiliau, diddordebau ac anghenion pob unigolyn.



- Mae **Asiantaethau Cyflogaeth â Chymorth** yn arbenigwyr ar helpu pobl ag anghenion cymorth ychwanegol. Rhaid iddyn nhw ddarparu **hyfforddwyr swyddi**.



- Fe ddylai pob **hyfforddiant swyddi** ddilyn y **Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Cyflogaeth â Chymorth**. Mae'r safonau yma yn disgrifio'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i wneud **hyfforddiant swyddi** yn dda.



- Fe ddylai pob sefydliad sy’n darparu **hyfforddiant swyddi** gael hyfforddiant yn y **Fframwaith Ansawdd Cyflogaeth â Chymorth** a **hyfforddiant swyddi**. Fe ddylen nhw ddysgu **Hyfforddiant mewn Addysg Gyfundrefnol**. Dyma ffordd o ddysgu pobl drwy dorri tasgau’n gamau llai.




- Fe ddylai Llywodraeth Cymru gefnogi rhaglen hyfforddi **hyfforddwyr swyddi** genedlaethol. Fe fyddai hyn yn gosod beth mae rhywun angen ei ddysgu i fod yn **hyfforddwr swyddi** cymwys.



- Fe ddylai fod cefnogaeth **hyfforddwr swyddi** parhaus i bobl nad ydyn nhw yn cael swydd â thâl ar ôl iddyn nhw orffen **Twf Swyddi Cymru+**, **interniaeth â chymorth**, neu **brentisiaeth â chymorth**.



- Dydy rhaglenni fel **interniaethau â chymorth**, **Twf Swyddi Cymru+** a **Phrentisiaethau â Chymorth** ddim yn gweithio i bawb. Fe ddylai’r holl raglenni swyddi a sgiliau gynnwys cymorth **hyfforddwr swyddi**.



- Fe ddylid rhoi cymorth i unrhyw un sydd dim yn gallu cael a chadw swydd â thâl heb gymorth.




- Fe ddylai Llywodraeth Cymru edrych ar gynnwys **hyfforddiant swyddi** mewn ysgolion, ochr yn ochr â'r gefnogaeth gan **Gyrfa Cymru**. Fe fyddai hyn yn helpu plant a phobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol yn ystod profiad gwaith.



- Fe ddylai rhaglenni cyflogaeth a sgiliau'r llywodraeth i bobl ifanc gwmpasu o leiaf pobl ifanc 16 i 24 oed, ond fe fyddai'n well i bobl ifanc hyd at 30 oed.



- Fe ddylai cymorth **hyfforddwr swyddi** fod ar gyfer pawb sydd o oedran gweithio, nid dim ond pobl ifanc.




- Mae angen i bobl gydnabod bod **hyfforddiant swyddi** yn helpu pobl i gael gwaith cyflogedig.



- Fe ddylai cyflogwyr ar draws Cymru gael gwybodaeth am gyflogaeth â chymorth a **hyfforddiant swyddi**.

**Yn ogystal â'r syniadau yma, rydyn ni wedi dod o hyd i rai ffyrdd gorau o weithio:**




- Mae angen i ni godi **dyheadau** pobl ifanc ag anableddau dysgu.

> Mae **dyheadau** yn meddwl eu nodau a'u dymuniadau ar gyfer beth maen nhw'n gallu ei gyflawni mewn bywyd.




- Mae angen i wybodaeth am sut i gael swydd â thâl fod yn well. Fe ddylai fod yn haws i bobl ifanc ddod o hyd iddyn nhw a'u deall.



- Fe ddylai gwybodaeth i rieni a gofalwyr hefyd fod yn haws dod o hyd iddyn nhw a'i deall.



- Fe ddylai rhieni, gofalwyr, cyflogwyr ac athrawon gredu bod pobl ifanc ag anableddau dysgu ac/neu awtistiaeth yn gallu cael a chadw gwaith cyflogedig.



- Fe ddylai profiad gwaith helpu pobl ifanc i archwilio eu dewisiadau gwaith. Tua 14 oed, fe ddylai profiad gwaith fod am beth ydy gwaith. O 16 oed, fe ddylai ganolbwyntio mwy ar:
    - Sgiliau
    - Mathau o swyddi
    - Profiad ymarferol

Gyrfa Cymru
Careers Wales

- Fe ddylai **Gyrfa Cymru** weithio gydag asiantaethau cyflogaeth â chymorth i wneud y pethau yma.



- Fe ddylai fod cynllun **Cyflogwr Cyfeillgar i Bobl Ifanc**. Fe fyddai hyn yn helpu cyflogwyr i ddarparu profiadau gwaith da i bobl ifanc.



- Fe ddylai adrannau Llywodraeth Cymru weithio gyda gwleidyddion i ddeall effaith gwaith cyflogedig yn well. Mae hyn ar gyfer pobl ag anableddau dysgu ac awtistiaeth.



- Fe ddylai adrannau Llywodraeth Cymru weithio'n well gyda'i gilydd a gyda'r sefydliadau y maen nhw yn eu hariannu. Mae hyn er mwyn cefnogi pobl ag anabledd dysgu ac/neu awtistiaeth i gael gwaith cyflogedig. A cadw gwaith cyflogedig.



- Rhaid i unrhyw sgwrs am helpu pobl ag anabledd dysgu ac/ neu awtistiaeth i waith â thâl gynnwys:
  - Pobl ag anabledd dysgu
  - Rhieni a gofalwyr
  - Cyflogwyr
  - Pobl sy'n cynllunio ac yn talu am wasanaethau



- Mae angen i ni annog cyflogwyr i gynnwys pawb. Er mwyn ei gwneud hi'n haws i bobl wneud cais am swyddi, mynd i gyfweliadau a chael hyfforddiant.




- Fe ddylai Llywodraeth Cymru edrych ar wneud enghreifftiau Hawdd eu Deall mae pawb yn gallu eu defnyddio. Fel hysbysebion swyddi a ffurflenni cais Hawdd eu Deall.

# Diolch

Diolch i **Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol** am ariannu a chefnogi ein gwaith.

Diolch i Lywodraeth Cymru am eu cefnogaeth.

Diolch i'r partneriaid **Engage to Change**:

- Agoriad Cyf
- Cyflogaeth â Chymorth Elite
- Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
- Project SEARCH DFN



Diolch yn arbennig i'r cynghorwyr cyflogaeth a'r **hyfforddwyr swyddi** am ein helpu i gasglu data.



Ac i'r bobl ifanc a'r rhieni am helpu gyda'r ymchwil yma.

# Geiriau anodd

### Dyheadau

Mae dyheadau yn meddwl eu nodau a'u dymuniadau ar gyfer beth maen nhw'n gallu ei gyflawni mewn bywyd.

### Hyfforddwyr swyddi a hyfforddiant swyddi

Mae hyfforddwyr swyddi yn helpu pobl i ddod o hyd i, dysgu ac aros yn eu swyddi. Mae'r cymorth yma yn hyfforddiant swydd.

### Interniaeth â chymorth

Interniaeth â chymorth ydy lle mae pobl yn mynd i'r coleg am rai oriau bob wythnos ond yn dysgu mewn gweithle am y rhan fwyaf o'r wythnos. Mae'r gwaith yn ddi-dâl. Maen nhw'n cael help gan hyfforddwr swyddi.